

**Sut bydd City & Guilds a CBAC yn ymdrin ag achosion o fynd yn groes i'r cyfarwyddyd –
Cymwysterau Craidd Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant**



Beth mae 'mynd yn groes i'r cyfarwyddyd' yn ei olygu?

Mae ymgeisydd yn mynd yn groes i'r cyfarwyddyd pan nad yw'n dilyn y cyfarwyddiadau a osodwyd ar gyfer y papur neu'r dasg benodol. Er enghraifft, yn hytrach nag ateb un cwestiwn allan o dri chwestiwn dewisol, mae'r ymgeisydd yn ateb mwy na'r hyn y mae ei angen, naill ai dau neu dri chwestiwn, neu mae'r ymgeisydd yn tanlinellu dau ddewis pan mai dim ond un y mae angen iddo ei danlinellu.

Beth yw cyfarwyddyd y papur?

Y cyfarwyddyd yw'r cyfarwyddiadau a roddir i ymgeiswyr ar ddechrau a/neu drwy'r papur cwestiynau/tasg sy'n rhoi gwybod i ymgeiswyr pa gwestiynau i'w hateb a sut i ateb cwestiynau neu dasgau penodol.

Sut dylem asesu gwaith lle nad yw'r ymgeisydd wedi dilyn y cyfarwyddiadau a roddwyd?

Mae'r tabl ar y dudalen ganlynol yn rhoi rhestr o fathau o fynd y groes i'r cyfarwyddyd a allai ddigwydd o fewn y gyfres o gymwysterau IGC a GChDDP. Mae'r tabl hefyd yn cynnwys dull cyffredin o ymdrin â phob math.

	Math o fynd yn groes i'r cyfarwyddyd	Enghraifft	Gweithred/Cyfarwyddyd	Gan bwy?	Canlyniad/nodiadau ychwanegol
1	Ticio/nodi mwy o atebion na'r hyn a bennir (fformat papur cwestiynau dewis lluosog)	Dewiswch un ateb o'r rhestr o 4 ateb posibl		Arholwr CBAC Neu staff mewnol ar gyfer ffug-arholiadau fersiynau papur	Mae papurau cwestiynau dewis lluosog yn cynnwys 50 o gwestiynau un marc. E.e. rhowch gylch o amgylch un ateb cywir. Mae'r ymgeisydd wedi rhoi cylch o amgylch dau ateb. Rhowch 0 marc Nid yw'r arholwr yn gallu pennu pa ateb sy'n gywir.
2	Pan fo'r ymgeisydd wedi croesi'r ateb cywir allan		Peidiwch â marcio unrhyw beth sydd wedi'i groesi allan	Aseswr/tiwtor/arholwr	Rhowch farciau yn unig am atebion sydd heb eu croesi allan ac sy'n weladwy i'w marcio.
3	Pan fo'r cwestiwn yn gofyn am nifer penodol o ymatebion ac mae'r ymgeisydd wedi darparu mwy (cwestiynau gwybodaeth a dealltwriaeth penagored)	Esboniwch dair ffordd y gall chwarae awyr agored wella datblygiad	Rhowch farciau am unrhyw atebion cywir a roddir hyd at y marc uchaf	Aseswr/tiwtor/arholwr	Pan fo'r cwestiwn yn gofyn am dair ffordd, os yw'r ymgeisydd yn rhoi chwe ffordd, a phedair ohonynt yn gywir, dylid rhoi'r tri marc llawn i'r ymgeisydd
4	Pan fo'r cwestiwn yn gofyn am nifer penodol o ymatebion ac mae'r ymgeisydd wedi darparu mwy (cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth mewn enghraifft lle mae llai o atebion cywir)	Nodwch 3 maes datblygiad	Rhowch un marc am bob maes datblygiad a restrir. Dim ond nifer penodol o feysydd datblygiad y gellid cyfeirio ato.	Aseswr/tiwtor/arholwr	Rhowch un marc am bob ateb cywir.

5	Ateb papur cwestiynau neu astudiaeth achos cyfrwng Saesneg yn Gymraeg <i>neu</i> bapur cwestiynau neu astudiaeth achos cyfrwng Cymraeg yn Saesneg		Rhowch farciau am yr ymateb lle bo'n bosibl neu uwchgyfeiriwch at sylw aseswr/tiwtor cyfrwng Cymraeg	Aseswr/tiwtor/arholwr	Rhowch farciau yn unol â'r cynllun marcio
6	Ateb cwestiwn yn y lle anghywir mewn llyfryn ateb		Os yw'n amlwg pa gwestiwn sy'n cael ei ateb, rhowch farciau am unrhyw ymateb cywir. Peidiwch â rhoi marciau ddwywaith drwy roi marciau mewn dau le am yr un ymateb	Aseswr/tiwtor/arholwr	Rhowch farciau am yr ymateb dim ond os yw'r dysgwr wedi dangos ei fod yn y lle anghywir e.e. saethau'n dangos bod y rhif wedi newid
7	Dysgwr yn llunio gormod o dudalennau o nodiadau i'w defnyddio yn y prawf banc cwestiynau	3 neu fwy o ochrau o nodiadau A4	Esboniwch wrth y dysgwr mai dim ond 2 ochr o nodiadau A4 y gall eu defnyddio a gofynnwch iddo adael un ochr y tu allan i'r ystafell asesiad dan reolaeth	Aseswr/Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol/Dysgwr	Caniatewch 2 ochr o nodiadau A4 yn unig
8	Dysgwr yn llunio nodiadau ar astudiaeth achos a nodiadau annibynnol i'w defnyddio wrth sefyll y banc cwestiynau	Nodiadau ar astudiaeth achos a nodiadau annibynnol wedi'u llunio gan y dysgwr	Esboniwch wrth y dysgwr bod angen iddo ddewis pa set o nodiadau yr hoffai eu defnyddio yn y banc cwestiynau a diystyriwch y set arall	Aseswr/Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol/Dysgwr	Caniatewch un set o nodiadau yn unig
9	Dysgwr yn newid ei feddwl o ran y dull o gofnodi atebion i'r banc cwestiynau (ysgrifenedig neu wedi'u teipio)	Ar ddiwrnod y banc cwestiynau, mae dysgwr yn esbonio y byddai'n well ganddo gwblhau'r banc cwestiynau ar ffurf wedi'i theipio yn hytrach na ffurf ysgrifenedig a gytunwyd yn flaenorol	Dylai'r ganolfan geisio annog y dysgwr i ddewis y dull cyn diwrnod y banc cwestiynau i sicrhau bod y ganolfan wedi gwneud trefniadau digonol ar gyfer copïau caled neu gopïau ar-sgrin o fanc cwestiynau. Dylai'r ganolfan geisio addasu i'r cais hwyr os yw hynny'n bosibl.	Aseswr/Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol/Dysgwr	Dylai'r ganolfan geisio addasu i'r dull o ddewis y dysgwr o gofnodi'r atebion banc cwestiynau

10	Dysgwr yn gorffen y banc cwestiynau o flaen yr amser ac yn gofyn am gael gadael yr ystafell asesiad dan reolaeth	Mae dysgwr yn cwblhau'r banc cwestiynau o flaen yr amser a ddyrannwyd ac yn gofyn am gael gadael yr amgylchedd asesiad dan reolaeth	Dylai'r ganolfan annog y dysgwr i wirio'r papur banc cwestiynau a chadarnhau ei fod yn hapus i adael yr ystafell asesiad dan reolaeth	Aseswr/Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol/Dysgwr	Mae angen i'r dysgwr gadarnhau ei fod yn hapus i adael yr amgylchedd asesiad dan reolaeth ac o'r pwynt hwn ni all wneud unrhyw ddiwygiadau pellach i'r papur
11	Nid yw dysgwr wedi cwblhau'r papur banc cwestiynau yn yr amser a ddyrannwyd	Mae dysgwr wedi gofyn am amser ychwanegol i gwblhau'r cwestiynau sydd heb eu gorffen sy'n weddill	Dylai'r ganolfan atgoffa dysgwyr cyn dechrau'r asesiad bod ganddynt 1 awr i gwblhau'r papur banc cwestiynau. Fel arfer da, dylai'r ganolfan roi gwybod i'r dysgwyr faint o amser sydd ganddynt yn weddill ar gyfer yr asesiad ac arddangos cloc/oriawr i gadw llygad ar amser	Aseswr/Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol/Dysgwr	Dylai'r ganolfan sicrhau ei bod yn glynu wrth yr amser a ddyrannwyd ar gyfer yr asesiad.
12	Nid yw dysgwr yn dychwelyd copi caled o astudiaeth achos ar ddiwrnod yr asesiad	Mae dysgwr yn cadw'r astudiaeth achos	Cyn rhyddhau'r astudiaeth achos i'r dysgwr, dylai'r ganolfan ddweud wrth y dysgwyr bod angen dychwelyd yr astudiaeth achos i'r ganolfan ar ddiwrnod yr asesiad ac na ddylid ei rhannu neu ei chopio.	Aseswr/Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol/Dysgwr	Dylai'r ganolfan roi gwybod i'r holl ddysgwyr y dylid dychwelyd y copi caled o'r astudiaeth achos i'r ganolfan ar ddiwrnod yr asesiad a dylid cael gwared arno yn gywir (os na ddefnyddir yn y nodiadau adolygu)